Centre of expertise on child sexual abuse

# Cynllun peilot ar gyfer Rhaglen Arweinwyr Ymarfer CPRh yng Ngwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Oedolion

## Adroddiad gwerthuso – crynodeb gweithredol

Medi 2020

Berni Graham



## Cydnabyddiaethau

Hoffwn ddiolch i'r holl bobl a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn drwy roi eu hamser a rhannu eu profiadau a'u barn. Hoffwn ddiolch yn benodol i Anna Glinski, hwylusydd y rhaglen o'r Ganolfan CSA, a Nicola Wendel, Ellie Reed a Micky Browne o Change Grow Live am eu cymorth hanfodol i gynnal y gwerthusiad hwn.

## Ynglŷn â'r awdur

Mae Berni Graham yn ymgynghorydd ymchwil a hyfforddwraig annibynnol, gyda dros 40 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus ac nid-er-elw yn y DU. Mae gyrfa ymchwil hirfaith Berni yn cwmpasu meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, anabledd a llesiant. Gyda Louca-Mai Brady, mae hi'n gyd-awdur y gyfrol *Social Research with Children and Young People: A Practical Guide, published by Policy Press in 2018.*

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CSA) yn dymuno gweld plant yn cael byw'n rhydd rhag bygythiad a niwed cam-drin rhywiol. Ein nod yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy gamau atal gwell ac ymateb gwell.

Rydym ni'n dîm amlddisgyblaethol, sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref a'i gynnal gan Barnardo's, ac rydym yn gweithio'n agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, rydym ni'n annibynnol a byddwn yn herio unrhyw rwystrau, rhagdybiaethau, tabŵau a ffyrdd o weithio sy'n ein hatal rhag cynyddu ein dealltwriaeth a gwella ein hagwedd at gam-drin plant yn rhywiol.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, mae'n rhaid i ni ddeall beth sy'n ei achosi, ei gwmpas, graddfa ac effaith. Gwyddom lawer am gam-drin plant yn rhywiol ac rydym wedi gwneud cynnydd i ymdrin â hyn, ond mae nifer o fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o hyd sy'n cyfyngu pa mor effeithiol yr eir i'r afael â'r mater.

# Crynodeb gweithredol

**Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad o raglen beilot i ddatblygu 'Arweinwyr Ymarfer' ym maes cam-drin plant yn rhywiol o fewn sefydliad trydydd sector sy'n cynorthwyo oedolion ag anghenion cymorth oherwydd dibyniaeth ar alcohol a/neu gyffuriau - sydd, yn ôl yr hyn a awgrymir gan ymchwil, yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn ystod eu plentyndod.**

## Rhaglen Arweinwyr Ymarfer y CSA yng ngwasanaethau camddefnyddio sylweddau oedolion

Cafodd fersiwn cynharach o Raglen Arweinwyr Ymarfer y CSA ei ddylunio gan y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant (Canolfan CSA) i'w ddefnyddio gyda gweithwyr cymdeithasol yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol. Cafodd y fersiwn diwygiedig o'r rhaglen sy'n cael ei werthuso yn yr adroddiad hwn ei ddatblygu ar y cyd â Change Grow Live (CGL), elusen genedlaethol fawr sy'n bennaf yn cefnogi oedolion ag anghenion cymorth oherwydd dibyniaeth ar alcohol a/neu gyffuriau. Yr oedd CGL yn awyddus i fod yn rhan o'r rhaglen hon er mwyn gwella gwasanaethau ymhellach ar gyfer pobl y tu hwnt i'w gynnig craidd; roedd yn ystyried hyn yn gyfle i ddysgu beth oedd ei angen i wneud pethau'n well.

Yr oedd y rhaglen beilot yn anelu at:

- gwella ymwybyddiaeth o ddealltwriaeth ymysg staff CGL am gam-drin plant yn rhywiol (CSA) a 'r cysylltiadau sydd wedi'u canfod rhwng hynny â chamddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, a thrafferthion eraill pan yn oedolion
- annog staff CGL i ofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth fel mater o drefn a ydynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan yn blant, a chymhwyso staff i ymateb yn briodol pan gaiff camdriniaeth ei datgelu
- cipio dysgu newydd er mwyn cyfrannu at welliant parhaus yn null gweithredu sefydliadol CGL o ran CSA, a chodi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad o werth ffocws cynyddol ar ymwybyddiaeth o gamdriniaeth o'r fath
- darparu dysgu ar gyfer Canolfan CSA o ran cymhwyso rhaglen o'r fath i sefydliad trydydd sector cenedlaethol mawr ac amlweddog.

Roedd y rhaglen yn cynnwys dau brif faes: cyfres o sesiynau hyfforddi manwl ar gyfer nifer fechan o staff CGL, a gyflwynwyd gan hwylusydd o'r Ganolfan CSA; a chymorth i'r staff hyn ddod yn Arweinwyr Ymarfer CSA o fewn CGL, fel y gallent gymhwyso'r dysgu o'r hyfforddiant i'w hymarfer eu hunain a rhaeadru negeseuon allweddol i'w cydweithwyr, eu timau a'u rheolwyr.

## Gwerthuso'r cynllun peilot

Cynhaliwyd gwerthusiad gan werthuswr allanol a gomisiynwyd gan y ganolfan CSA ar derfyn y rhaglen beilot i archwilio'i dull gweithredu, asesu cynnydd tuag at gyflawni ei hamcanion a chanfod dysgu o ran ei datblygiad yn y dyfodol a'i gallu i gael ei hailadrodd. Y prif gwestiynau gwerthuso oedd:

- Pa mor briodol ac effeithiol oedd dyluniad, dulliau, cyflwyniad a chynnwys yr hyfforddiant?
- Pa wahaniaeth a wnaeth y rhaglen i ddealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer yr Arweinwyr Ymarfer a'u timau? Beth fu'r prif alluogwyr a'r heriau o ran cymhwyso'r dysgu'n ymarferol a'i rannu gyda chydweithwyr?
- A oes unrhyw arwyddion cynnar o newidiadau yn null gweithredu, strategaethau a darpariaeth gwasanaeth CGL ynghylch y mater hwn?
- Pa ddysgu a ddaeth i'r amlwg ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw heriau a wynebwyd, yn enwedig os bydd y model hwn yn cael ei ailadrodd a/neu y cyflwynir y rhaglen yn ehangach?

Defnyddiodd y gwerthusiad gymysgedd o ddulliau a oedd yn cynnwys:

- dau grŵp ffocws gyda'r Arweinwyr Ymarfer ar ddiwedd y rhaglen
- cyfweliadau un-i-un gyda hwylusydd y rhaglen a thri Arweinydd Cenedlaethol CSA yn CGL
- cyfweliadau un-i-un gyda thri defnyddiwr gwasanaeth a fu'n ymwneud â'r rhaglen
- dadansoddiad o bedwar arolwg a gynhaliwyd gan CGL cyn ac ar ôl y rhaglen, o holiaduron cyn ac ar ôl yr hyfforddiant a lenwyd gan yr Arweinwyr Ymarfer, ac o adborth ysgrifenedig gan 10 Arweinydd Ymarfer.

## Prif ganfyddiadau

Canfu'r gwerthusiad fod y rhaglen yn hynod briodol ar gyfer sefydliad fel CGL, gan weithio'n bennaf gydag oedolion a oedd ag anghenion cymorth o ran cyffuriau neu alcohol a/neu broblemau iechyd meddwl.

Profodd cydweithio agos ar y dechrau ac yn barhaus rhwng uwch bersonél yn CGL a hwylusydd Canolfan CSA yn hanfodol o ran datblygu'r rhaglen a'i rhoi ar waith, gan sicrhau ei bod yn cwrdd ag anghenion y sefydliad.

Canfu'r gwerthusiad dystiolaeth sylweddol o effaith y rhaglen ar wybodaeth a hyder y rhai a gymerodd ran wrth siarad am CSA gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â newidiadau yn eu hagweddau a'u sgiliau. Yr oedd yn ymddangos fod y rhain wedi golygu newidiadau sylweddol o ran ymarfer, yn enwedig ymysg Arweinwyr Ymarfer CSA eu hunain ond hefyd ymysg y staff o'u cwmpas a oedd, erbyn diwedd y rhaglen, yn dechrau holi defnyddwyr gwasanaeth am CSA fel mater o drefn. Hefyd, dywedodd Arweinwyr Ymarfer CSA eu bod wedi derbyn nifer gynyddol o ddatgeliadau am CSA gan gynnwys gan bobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth am flynyddoedd a heb ddatgelu hynny'n flaenorol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos fod y dull gweithredu newydd hwn o ran holi defnyddwyr gwasanaeth fel mater o drefn am eu profiad o gamdriniaeth rywiol pan yn blant yn briodol ac yn ddefnyddiol, ac yn tynnu sylw at werth posibl y rhaglen hon i sefydliadau sy'n gweithio mewn meysydd tebyg.

Dangosodd y gwerthusiad ei bod yn bwysig i'r Ganolfan CSA ddeall strwythur a chefndir pob sefydliad y mae'n cydweithio ag ef. Mae sefydliadau cenedlaethol, yn enwedig, yn ymateb i anghenion amrywiol mewn gwahanol rannau o'r wlad, ac yn wynebu trefniadau comisiynu a chyfrifoldebau niferus.

Bu i'r gwerthusiad hefyd ddatgelu rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig â chynnal cynllun peilot ar raglen mor uchelgeisiol o fewn sefydliad mawr, amrywiol, a thynnodd sylw at bwysigrwydd datblygu strategaeth a fframwaith polisi eang er mwyn gyrru a gwreiddio newid eang hirdymor o ran agweddau ac ymarfer.

## *Dylunio, dull, cyflwyno a chynnwys yr hyfforddiant*

Mae'r dystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos fod dyluniad, cynnwys a dulliau'r rhaglen yn gwbl briodol ar gyfer ymarferwyr yn y maes hwn a'u defnyddwyr gwasanaeth. Darparodd y gwerthusiad ddysgu defnyddiol ar gyfer Canolfan CSA o ran gwelliant parhaus y rhaglen mewn gwahanol sectorau.

Manteisiodd y rhaglen ar ymchwil flaenorol a gynhaliwyd gan y Ganolfan CSA, ac ar wybodaeth ac arbenigedd helaeth hwylusydd y rhaglen. Yr oedd y pynciau yr ymdriniwyd â hwy a'r dulliau cyflwyno yn addas i'r pwnc ac i'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen, a oedd yn dod o ystod o leoliadau, yn meddu ar amrywiol gymwysterau a theitlau swyddi ac yn hynod brofiadol a medrus. Yr oedd y gymysgedd o wybodaeth ymchwil a dysgu o ymarfer yn cynnal y cydbwysedd cywir, a phrofodd lleisiau defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran darbwyllo Arweinwyr Ymarfer am yr angen i flaenoriaethu a chychwyn gofyn i bobl yn uniongyrchol am CSA.

Yr oedd natur fyfyriol ac ailadroddol y rhaglen, gyda'r hyfforddiant yn ymestyn dros 10 mis, yn golygu y gellid ehangu a dyfnhau pynciau i ymateb i faterion a godwyd gan gyfranogwyr, ac yr oedd hyn yn rhoi'r atgyfnerthiad a'r cyfleoedd ymarfer oedd eu hangen arnynt i dorri drwy eu rhwystrau eu hunain i ofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am CSA.

## *Effaith ar ddealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer Arweinwyr Ymarfer CSA a'u timau*

Er gwaethaf eu harbenigedd proffesiynol presennol, dywedodd Arweinwyr Ymarfer CSA eu bod wedi dysgu llawer iawn am raddfa a natur CSA, a'i berthynas â chamddefnyddio sylweddau, trafferthion iechyd meddwl, salwch corfforol, esgeulustod personol a materion eraill.

Teimlai'r Arweinwyr Ymarfer yn fwy ymwybodol o faint profiad defnyddwyr gwasanaeth o CSA yn ogystal â'r ffyrdd amrywiol yr oedd hyn wedi effeithio ar fywydau defnyddwyr gwasanaeth. Yn y cyd-destun hwn, yr oeddynt yn cydnabod eu bod yn y gorffennol wedi derbyn rhai mythau cyffredin ynghylch CSA, yn bennaf y bydd pobl yn datgelu pan fyddant yn barod. Yr oeddynt yn  gwerthfawrogi gweld y camdybiaethau hynny'n cael eu chwalu. Hyd yn oed lle yr oedd Arweinwyr Ymarfer wedi credu eu bod yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am CSA fel mater o drefn, yr oedd cymryd rhan yn y rhaglen wedi gwneud iddynt sylweddoli eu bod yn siarad o gwmpas y pwnc yn hytrach na holi'n uniongyrchol amdano. O ganlyniad i'r hyfforddiant, teimlai Arweinwyr Ymarfer eu bod wedi'u galluogi i wneud ymholiadau am CSA fel mater o drefn, ac yn fwy hyderus i ymateb i ddatgeliadau'n briodol a chynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth yn dilyn datgelu.

Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hefyd yn awgrymu fod dealltwriaeth newydd Arweinwyr Ymarfer wedi treiddio'n ddigon dwfn i gael ei wreiddio yn eu hymarfer unigol, a bod y model hyfforddiant o'r herwydd yn effeithiol o ran creu newid o ran agwedd ac ymarfer.

Yn ogystal, bu modd i'r Arweinwyr Ymarfer rannu eu dysgu gyda llawer o gydweithwyr, ac yr oedd rhai ohonynt hefyd yn dechrau gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am CSA fel mater o drefn.

Erbyn diwedd y rhaglen, dywedodd yr Arweinwyr Ymarfer CSA eu bod wedi derbyn nifer gynyddol o ddatgeliadau am CSA gan gynnwys gan bobl a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth am flynyddoedd a heb ddatgelu hynny'n flaenorol. Er enghraifft, dywedodd saith o Arweinwyr Ymarfer eu bod wedi derbyn cyfartaledd o 22 o ddatgeliadau ers mabwysiadu'r dull gweithredu newydd.

Dywedodd yr Arweinwyr Ymarfer hefyd eu bod wedi cael ymatebion cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a ddatgelodd, ac yn ogystal rhoddwyd sylwadau anecdotaidd am y defnyddwyr gwasanaeth hyn o ran y gwelliant yn eu hiechyd ac yn eu hymgysylltu â gwasanaethau.

### *Effaith ar ddull gweithredu, strategaethau a darpariaeth gwasanaeth CGL o ran CSA*

Ar gyfer CGL mae'r rhaglen beilot wedi datblygu grŵp o Arweinwyr Ymarfer CSA sydd wedi ymrwymo i gymhwyso'u dysgu i'w gwaith eu hunain ac i rannu hyn gyda'u cydweithwyr. Mae hefyd wedi dangos manteision gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am eu profiad o CSA fel mater o drefn. O'r herwydd mae gan y rhaglen botensial i gael effaith gadarnhaol sylweddol ar effeithlonrwydd a darpariaeth gwasanaeth CGL.

Ar yr un pryd, y mae'r cynllun peilot a'r gwerthusiad ohono wedi tynnu sylw at ddysgu pwysig ynghylch rhoi rhaglen fel hon ar waith, yn enwedig yn nhermau galluogi Arweinwyr Ymarfer i gael gafael ar gymorth sydd ar gael fel y gallant hyrwyddo'r dull gweithredu newydd o fewn eu sefydliad, a rhagweld yr effaith ar y sefydliad o dderbyn niferoedd cynyddol o ddatgeliadau.

Yr oedd Arweinwyr Ymarfer yn obeithiol y bydd y dull gweithredu newydd yn y pen draw yn helpu i leihau achosion o droi'n ôl at gamddefnyddio sylweddol a natur 'drws troi' perthynas llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth â gwasanaethau, a chan hynny gynnal eu hadferiad hirdymor.

### *Ailadrodd y model a chyflwyno'r rhaglen yn ehangach*

Mae'r cynllun peilot wedi creu model y gall y Ganolfan CSA ei fabwysiadu a'i addasu ar gyfer sefydliadau eraill yn y dyfodol, ac mae'r goleuni a gafwyd yn cynnwys goblygiadau ymhell y tu hwnt i CGL. Er enghraifft, mae'n eithaf posibl fod ymarferwyr mewn sefydliadau eraill yn teimlo'n hyderus eu bod eisoes yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaethau oedolion fel mater o drefn am eu profiadau o CSA, pan nad ydynt, mewn gwirionedd, yn gwneud hynny. Dengys hyn bwysigrwydd Rhaglen Arweinwyr Ymarfer CSA o ran gwella'r cymorth ar gyfer oedolion sydd wedi goroesi CSA.

Tynnodd y gwerthusiad sylw at werth y bartneriaeth agos a'r cyfathrebu da rhwng hwylusydd rhaglen y ganolfan CSA a CGL, a sicrhaodd bod y rhaglen yn cael ei theilwra i anghenion CGL. Yn yr un modd, datgelodd bwysigrwydd ymrwymiad parhaus tîm craidd yn CGL i ddylunio, cefnogi a gweithredu'r rhaglen o fewn y sefydliad.

Y mae'r heriau ehangach sy'n gysylltiedig â lledaenu a chyflwyno rhaglen fel hyn yn ehangach - gan sicrhau bod yr holl staff yn deall pam a sut y dylent fod yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth am CSA, a sut i gynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth yn dilyn datgeliad - yn debygol o godi ymysg sefydliadau eraill sy'n ymgysylltu â'r rhaglen hon.  Mae profiad CGL o dreialu'r rhaglen yn dangos gwerth datblygu strategaeth ledaenu ar y dechrau, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth o nodau a gweithgareddau'r rhaglen Gallai hyn gynnwys strategaethau arweinyddiaeth a chyfathrebu, i gynorthwyo timau i wreiddio ymholi am CSA fel mater o drefn, gan ei wneud yn ddull gweithredu safonol.

## Ystyriaethau ar gyfer datblygu i'r dyfodol

Mae nifer o ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygiad y cynllun yn y dyfodol wedi deillio o'r gwerthusiad hwn.

- Y neges gliriaf yw y dylai'r Ganolfan CSA barhau i ddatblygu'r rhaglen ac archwilio sut i'w chyflwyno'n ehangach. Heb amheuaeth, mae angen rhaglen hyfforddi sy'n galluogi sefydliadau sy'n gweithio gydag oedolion sy'n debygol o fod wedi profi CSA i gymryd agwedd ragweithiol a chefnogol i roi sylw i effaith CSA ar eu defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r sefydliadau a allai gael budd o'r rhaglen hon yn cynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl a'r rhai sy'n gweithio gyda charcharorion neu gyn-garcharorion, pobl sydd wedi profi digartrefedd a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Mae'n debygol y bydd angen addasu'r rhaglen ar gyfer pob sefydliad lle caiff ei chyflwyno. Fel y dangosodd y cynllun peilot, mae hyn yn debygol o alw am ymrwymiad a mewnbwn sylweddol gan y sefydliad, fel y dangoswyd gan CGL gydol cyfnod cyflwyno'r rhaglen er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth.
- Efallai y bydd angen cynllunio gwahanol fersiynau o'r rhaglen hyfforddi i fod yn addas ar gyfer gwahanol sefydliadau, cyd-destunau a chyllidebau - er enghraifft, gwneud y cynnwys yn haws neu'n anoddach gan ddibynnu ar ymwybyddiaeth, rolau a math o wasanaeth y cyfranogwyr. Mae'n bosibl y gallai llawer o sefydliadau ddewis cwrs sylfaenol byrrach ar gyfer ei holl staff neu'r rheolwyr yn ychwanegol at hyfforddiant hirach Arweinwyr Ymarfer y CSA Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglen gael eu treialu a'u gwerthuso.
- Dim ond un rhan o'r darlun yw'r rhaglenni hyfforddi. Mae llwyddo i gyflawni newid mewn diwylliant, gwybodaeth ac ymarfer ar draws sefydliad cyfan a gwreiddio ymholiad am CSA fel mater o drefn yn galw am ystyriaeth o gynllunio strategol (cyn cyflwyno'r hyfforddiant, yn ddelfrydol) ac ymgysylltiad effeithlon personél allweddol ar bob lefel yn y sefydliad i ddatblygu ymrwymiad a strategaethau digonol er mwyn rhoi'r dull gweithredu newydd ar waith.

Yn gyffredinol, mae cynllun peilot y Rhaglen Arweinwyr Ymarfer yng ngwasanaethau camddefnyddio sylweddau i oedolion wedi dangos gwerth datblygu dull gweithredu rhagweithiol i roi sylw i effaith CSA ymysg defnyddwyr gwasanaethau oedolion. Mae wedi dangos fod llawer mwy o ddefnyddwyr gwasanaeth yn debygol o fod wedi profi CSA nac a ddeallwyd yn flaenorol ac mae wedi dangos pwysigrwydd cydnabod maint anghenion cymorth defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r gwerthusiad hwn wedi datgelu perthnasedd Rhaglen Arweinwyr Ymarfer y CSA i sefydliadau o'r fath, ac mae'n tynnu sylw at werth ymestyn y rhaglen i sefydliadau sy'n gweithio mewn meysydd cyffelyb.

Centre of expertise on child sexual abuse

**Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn**
**www.csacentre.org.uk/knowledge-in-practice/professional-development/the-practice-leads-programme**

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

21845shc20